ATODLEN 2

Cosbau ariannol penodedig

# RHAN 1

## Gosod cosbau ariannol penodedig a gweithdrefn

**Penderfynu ai gosod cosb ariannol benodedig ai peidio**

**6.**—(1) Ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau o dan baragraff 5, rhaid i'r gweinyddwr benderfynu ai gosod y gosb ariannol benodedig ai peidio.

(2) Wrth wneud penderfyniad o dan y paragraff hwn rhaid i weinyddwr gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a wnaed gan y gwerthwr yn unol â'r paragraff hwnnw.

(3) Ni chaiff gweinyddwr benderfynu gosod cosb ariannol benodedig yn unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau canlynol—

(a) os cafwyd rhyddhad rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau drwy dalu'r swm penodedig;

(b) os gosodwyd eisoes gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau;

(c) os gosodwyd gofyniad yn ôl disgresiwn mewn perthynas â'r un weithred neu anwaith.

(4) Heb gyfyngu ar y pŵer o dan is-baragraff (1), caiff gweinyddwr benderfynu peidio â gosod cosb benodedig os yw'r gweinyddwr o'r farn y byddai'n anfuddiol gwneud hynny o dan holl amgylchiadau'r achos.

(5) Pan fo'r gweinyddwr yn penderfynu gosod y gosb ariannol benodedig rhaid iddo wneud hynny drwy gyflwyno'r hysbysiad terfynol i'r gwerthwr(**1**).

(6) Rhaid i'r hysbysiad terfynol gydymffurfio â pharagraff 7.

(**1**) I gael ystyr "*the final notice*" *gweler* paragraff 11(1)(d) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.